

Cerrig Adeiladu Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Mae'r ardal o gwmpas canol Caerdydd yn cynnwys amrywiaeth o gerrig adeiladu, gyda pheth ohono yn lleol, a pheth yn dod o lefydd pellach i ffwrdd. Mae cerrig adeiladu yn ffordd o astudio daeareg mewn amgylchedd dinesig. Allwch chi ganfod yr holl gerrig sy'n cael eu crybwyll fan hyn?

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod, ewch i amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

002



Beth yw cerrig adeiladu?

Mae cerrig ymhobman o dan ein traed, ond gallant fod wedi eu gorchuddio â phridd, tyfiant, neu strwythurau o waith llaw dyn. Nid yw pob carreg yn addas fel deunydd adeiladu. Caiff carreg adeiladu dda ei dewis am ei chryfder, sut mae'n gwrthsefyll hindreuliad (gwytnwch), ei golwg, a'r gost o'i hechdynu a'i gosod.



Prif adeilad

Mae'r Amgueddfa, fel gweddill y Ganolfan Ddinesig, wedi'i hadeiladu o **Garreg Portland**, carreg galch gwyn o Dorset. Cafodd y garreg waddodol hon ei ffurfio yn y môr 145 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Wrth edrych yn ofalus byddwch yn gweld bod ynddi weddillion ffosil sy'n dywyllach mewn lliw a ddaeth o gregyn wystrys, a oedd yn byw ar waelod y môr ar yr adeg honno. 'Carreg rywiog' yw'r garreg hon, sy'n golygu ei bod yn gallu cael ei thorri a'i defnyddio'r un mor dda ym mha bynnag gyfeiriad. Mae cerrig haenog eraill sydd ond yn gallu cael eu defnyddio mewn cyfeiriad penodol.



Grisiau

Mae grisiau blaen yr Amgueddfa wedi eu gwneud o **wenithfaen** o Ros Bodmin, Cernyw, carreg danllyd 300 miliwn mlwydd oed, wedi'i grisialu o fagma (carreg dawdd) yn ddwfn o dan yr arwyneb. Mae golwg fanylach yn dangos ei fod yn cynnwys pedwar math o fwyn, wedi'u cloi mewn mosäig; **ffelsbar** petryalog gwyn, rhain dyfodd gyntaf felly nhw yw'r mwyaf; ffelsbar gwyn llai; **cwarts** gwydrog, llwyd; **mica biotit** du a **mica moscofaidd** sgleiniog.



Prif neuadd

Mae'r llawr a'r colofnau wedi eu llunio o **Farmor Comblanchien**, carreg galch beige caboledig o Ffrainc.

Mae ffosilau niferus yn cynnwys gastropodau, cregyn deuglawr, cwreli a sbyngau. Lle da i chwilio am ffosilau yw'r cerrig fertigol ar falconi'r llawr cyntaf.

Marmor Mazzano (Botticino) yw'r pileri, carreg galch o Lombardia, Yr Eidal.

Du Belgaid yw'r marmor tywyll, carreg galch â swm mawr o gynnwys organig sy'n dod o gloddfeydd gweithredol ers cyfnod y Rhufeiniaid.



Cylch yr Orsedd

Cafodd Cylch yr Orsedd sydd gyferbyn â blaen yr Amgueddfa ei adeiladu ar gyfer Eisteddfod 1899. **Carreg Radyr** goch yw'r cerrig unionsyth, tywodfaen clobynnog sy'n cynnwys amrywiaeth o gerrig crwn a darnau mwy onglog. Mae'r rhain yn ddarnau o gerrig calch hŷn a thywodfaen, wedi'u rhwygo a'u dosbarthu gan fflachlifogydd, mewn anialwch dros 200 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Cafodd y math hwn o garreg ei gloddio'n lleol o gwmpas Radyr a Sain Ffagan.